# Cynllun Strategol Cydraddoldeb

# Strategic Equalities Plan

## 2024-28



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 1) Cyngor Sir Caerfyrddin

## Ein hymrwymiad

Mae cyhoeddi Cynllun Strategol Cydraddoldeb yn ddyletswydd gyfreithiol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cyflwynwyd Deddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn gallu cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn well, ac i sicrhau bod cydraddoldeb yn greiddiol i holl waith y cyrff rhestredig. Mae'r ddeddfwriaeth yn sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar ddileu anghydraddoldeb a'r rhwystrau sy'n ei achosi, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl.

Fel Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i bobl Sir Gaerfyrddin, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Fel cyflogwr, rydym hefyd wedi ymrwymo i adeiladu sefydliad sy'n gwneud defnydd llawn o dalentau, sgiliau a phrofiad aelodau staff presennol a darpar aelodau staff. Cydnabyddwn fod yr hyn a wnawn bob dydd yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl ac mae gennym ran allweddol wrth wella ansawdd bywyd i bawb yn ein cymuned. Drwy gyflawni'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn y cynllun hwn rydym hefyd yn cefnogi Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ogystal â'n hymrwymiadau ein hunain yn y Strategaeth Gorfforaethol, sy'n cynnwys cyflawni cynlluniau gweithredu cydraddoldeb eraill fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth o 2024 hyd 2028, rhai o'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd i roi ein hymrwymiadau ar waith a sut y byddwn yn monitro ein perfformiad ac effeithiolrwydd y Cynllun.

## Sut i gysylltu â ni:

Gallwch gyflwyno sylwadau ac awgrymiadau unrhyw bryd ynghylch sut y gall y Cyngor wella a pherfformio orau fel sefydliad cyfle cyfartal. Defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Y Tîm Polisi a Chynnwys
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

## Fformatau Hygyrch

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall. Mae pob cyhoeddiad hefyd ar gael i'w lawrlwytho mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

## 2) Deall ein dyletswyddau

Datblygwyd y Cynllun Strategol Cydraddoldeb er mwyn inni allu nodi sut rydym yn anelu i gyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb a rhwymedigaethau cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb ychwanegol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel yr amlinellir isod:

### Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

### Y Ddyletswydd Gyffredinol

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, rhaid inni roi sylw dyladwy i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill.

Wrth ystyried sut i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill, mae angen inni hefyd:

- Dileu neu leihau hyd yr eithaf unrhyw anfanteision a ddioddefir gan bobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy’n gysylltiedig â’r nodwedd honno.
- Bodloni'r anghenion hynny sydd gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan y bobl hynny'n anghymesur o isel.

### Y Dyletswyddau Penodol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi grym i wneud rheoliadau sy'n gorfodi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i’w cynorthwyo i gyflawni’r Ddyletswydd Gyffredinol yn well; y rhain yw Dyletswyddau Penodol Cymru. Mae’r Dyletswyddau Penodol yn tanategu’r Ddyletswydd Gyffredinol ac fe'u datblygwyd o amgylch pedair prif egwyddor:

1. Defnydd o dystiolaeth
2. Ymgynghori a chynnwys
3. Tryloywder
4. Arweinyddiaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau a oedd yn cyflwyno'r Dyletswyddau Penodol i Gymru ym mis Mawrth 2011. Roedd y rheoliadau'n nodi'r camau y mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin eu cymryd i gydymffurfio:

- Pennu Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Strategol Cydraddoldeb.
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb yn y modd y mae penderfyniadau'r Cyngor yn effeithio arnynt.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol
- Cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a chyhoeddi'r canlyniadau os gwelir effaith sylweddol.
- Cyhoeddi gwybodaeth monitro cyflogaeth yn flynyddol.
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gyffredinol ymhlith ein gweithwyr a defnyddio ein gweithdrefnau arfarnu staff i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ein gweithwyr.
- Gosod amcan cyfle cyfartal rhwng y rhywiau lle nodir gwahaniaeth rhwng cyflogau'r rhywiau.
- Ystyried cynnwys amodau sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gyffredinol yn ein prosesau caffael.

## Pwy sy'n cael ei warchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae pawb yn cael eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; fodd bynnag, mae'r Dyletswyddau Cyffredinol a Dyletswyddau Penodol y Sector Cyhoeddus yn cyfeirio at Nodweddion Gwarchodedig. Dyma nhw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

## Mathau o Wahaniaethu

Gall gwahaniaethu ymddangos ar un o'r ffurfiau canlynol:

- Gwahaniaethu uniongyrchol - trin rhywun â nodwedd warchodedig yn llai ffafriol nag eraill
- Gwahaniaethu anuniongyrchol - rhoi rheolau neu drefniadau ar waith sy'n berthnasol i bawb, ond sy'n rhoi rhywun â nodwedd warchodedig o dan anfantais annheg
- Aflonyddu - ymddygiad digroeso sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig, sy'n sathru ar urddas rhywun neu'n creu awyrgylch annifyr ar ei gyfer
- Erledigaeth - trin rhywun yn annheg am iddo gwyno am wahaniaethu neu aflonyddu

- Gwahaniaeth drwy gysylltiad – trin rhywun yn llai ffafriol nag eraill, oherwydd rhywun y mae'n gysylltiedig ag ef
- Gwahaniaethu ar sail canfyddiad – trin rhywun yn llai ffafriol nag eraill oherwydd canfyddiad bod ganddo nodwedd warchodedig, waeth a yw'r canfyddiad hwnnw'n gywir ai peidio
- Gwahaniaethu sy’n deillio o anabledd – trin rhywun anabl yn llai ffafriol oherwydd rhywbeth sy'n deillio o'i anabledd, a lle na ellir cyfiawnhau'r ymdriniaeth yn wrthrychol.
- Methiant i wneud addasiadau rhesymol (Anabledd yn unig) – gall rhywun anabl brofi gwahaniaethu os na fydd cyflogwr neu sefydliad yn gwneud addasiad rhesymol.

Nid yw gwahaniaethu bob amser yn amlwg a gall fod yn gynnil a digwydd yn ddiarwybod. Gelwir hyn yn rhagfarn ddiarwybod. Mae hyn yn deillio o ragdybiaethau cyffredinol rhywun am allu, diddordebau a nodweddion grŵp neilltuol o bobl sy'n dylanwadu ar y modd y mae'n trin y bobl hynny. Gall rhagdybiaethau neu ragfarnau o'r fath achosi i bobl gymhwyso gofynion neu amodau yn ddiarwybod sy'n rhoi'r bobl hynny mewn grwpiau neilltuol o dan anfantais.

## Y Gymraeg

Yn Sir Gaerfyrddin, mae angen rhoi sylw i'r Gymraeg hefyd. Er bod hyn yn dod o dan fframwaith deddfwriaethol ar wahân, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ceir cysylltiad agos rhwng ymagwedd ehangach y Cyngor at gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad y Cyngor tuag at y Gymraeg - ac yn enwedig yr angen i sicrhau y gall pobl ddefnyddio eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) wrth ymdrin a'r Cyngor. Mae’r gofynion i Asesu Effaith yn gysylltiedig â’r nodweddion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yr un mor berthnasol i’r Gymraeg.

Ceir rhagor o wybodaeth am Safonau’r Gymraeg ar wefan y Cyngor neu drwy Gomisiynydd y Gymraeg.

# 3) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Gofynion y Ddeddf

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gyfraith sy'n torri tir newydd ac sy'n rhoi cyfle unigryw i bob gwasanaeth cyhoeddus gydweithio'n wahanol, gan gynnwys cymunedau wrth lunio ein dyfodol hirdymor a gwella llesiant i bawb. Mae'r Ddeddf yn gosod dinasyddion Cymru wrth graidd popeth a wneir gan wasanaethau cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac yn sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan annatod o bopeth a wnawn.

## Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith Nod Llesiant y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus weithio tuag atynt i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pob un o'n cymunedau.




Gyda'i gilydd maent yn rhoi pwrpas a gweledigaeth gyffredin i wasanaethau cyhoeddus weithio tuag atynt. Rhaid ystyried y nodau fel cyfres integredig, gan greu'r cysylltiadau perthnasol rhyngddynt i sicrhau llesiant. Mae'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun llesiant hwn oll wedi'u llunio gyda golwg ar gyfrannu'n ehangach at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

Bydd y nodau llesiant cenedlaethol Cymru sy'n Fwy Cyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynus yn arwain ein gwaith yn lleol, a byddwn yn sicrhau bod ein Hamcanion Strategol Cydraddoldeb yn cyfrannu at y rheiny.

## Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae'n rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus, wrth weithio tuag at gyflawni'r nodau hyn, ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a luniwyd i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu

hanghenion eu hunain. Mae angen inni sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallai hynny ei chael ar bobl sy’n byw yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

## Pum Ffordd o Weithio

Ceir Pum Ffordd o Weithio y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus eu dilyn, i ddangos sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth gyflawni'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb hwn, rhaid inni sicrhau ystyriaeth o'r ffyrdd hyn o weithio ym mhopeth a wnawn. Mae'n rhaid inni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda chymunedau lleol, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau ein bod hefyd yn gweithio gyda'n gilydd mewn ymagwedd partneriaeth fwy cadarn ac effeithiol.



**Cydweithio**
Cydweithio ag unrhyw un arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.



**Integreiddio**
Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



**Cynnwys**
Pwysigrwydd cynnwys pobl â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.



**Y Tymor Hir**
Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



**Atal**
Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**Cydnabyddiaeth:** Pum Ffordd o Weithio, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

## 4) Datblygu a gosod ein Hamcanion Strategol Cydraddoldeb

Er mwyn datblygu ein Hamcanion Strategol Cydraddoldeb, rydym wedi ymgysylltu â'n trigolion, a'n gweithlu ac wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys adroddiadau ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), adroddiadau a pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau Cyngor Sir Caerfyrddin.

### 1. *'A yw Cymru'n Decach 2023?'* gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).*'A yw Cymru'n Decach 2023?'*, adolygiad cynhwysfawr o berfformiad Cymru o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.

Roedd A yw Cymru'n Decach? (2018) yn casglu tystiolaeth o 6 agwedd ar fywyd: addysg, iechyd, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch, gwaith a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus. Roedd y rhagolygon ar gyfer pobl anabl, rhai pobl o leiafrifoedd ethnig, a phlant o gefndiroedd tlotach wedi gwaethygu mewn sawl agwedd ar fywyd. Mae perygl i'r anghydraddoldeb hwn ymwreiddio am genedlaethau i ddod, gan greu cymdeithas lle mae'r grwpiau hyn yn cael eu gadael ar ôl ar y daith tuag at wlad deg a chyfartal.

Mae adroddiad 2023 yn darparu data a thystiolaeth werthfawr a fydd yn cefnogi ymdrechion pob corff cyhoeddus i leihau anghydraddoldeb ledled Cymru, ac mae'n trafod y pum mlynedd diwethaf, sy'n cynnwys pandemig COVID-19. Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at y themâu trosfwaol hyn:

- Cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.
- Bwlch sylweddol yng nghyrhaeddiad addysgol y plant hyn.
- mae'r bwlch cyrhaeddiad addysg rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn parhau i ledu yn y blynyddoedd cynnar.
- Mae bylchau enillion ar gyfer gweithwyr anabl wedi lledu ers 2014.
- Mae allgáu digidol yn parhau i fod yn broblem barhaus i bobl hŷn, pobl anabl, rhai sydd mewn tlodi a phoblogaethau gwledig.
- Mae tlodi yng Nghymru yn parhau i fod yn gyson uchel.
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn adrodd bod ganddynt iechyd meddwl gwaelach nag oedolion heterorywiol.
- Mae gofal plant a chyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gydraddoldeb.
- Mae'r sefyllfa'n tueddu i ddirywio o ran cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.
- Cynnydd mewn troseddau a waethygir gan hiliaeth a chrefydd. Er gwaethaf hyn, mae cyfran y troseddau sy'n arwain at gyhuddiad wedi gostwng.

I weld yr adroddiad cliciwch yma.

### 2. Arolwg y Cynllun Strategol Cydraddoldeb – Cydweithrediad rhwng Canolbarth a Gorllewin Cymru

Daeth gwasanaethau cyhoeddus Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghyd i ofyn am farn y cyhoedd ar gydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys arolwg a digwyddiadau ymgysylltu. Casglai'r arolwg farn

pobl o wahanol gefndiroedd ynghylch eu profiad o chwe phrif faes bywyd, yn seiliedig ar feysydd *'A yw Cymru'n Decach 2018?'*, fel y'u rhestrir uchod.

Roedd y bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Heddlu Dyfed Powys, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

## 5) Cipolwg o Sir Gaerfyrddin

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 187,897 o bobl yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd rhifiadol o 4,120 o bobl a chynnydd canrannol o 2.2% ers cynnal y Cyfrifiad blaenorol yn 2011. Mewn cymhariaeth, cynyddodd poblogaeth Cymru 1.4% dros y cyfnod o 10 mlynedd, tra bod cyfanswm y cynnydd ar gyfer Cymru a Lloegr yn uwch ar 6.3%. Er bod patrwm twf Sir Gaerfyrddin yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr, hi yw'r 5ed uchaf o ran twf o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dwysedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yw 79 o bobl fesul cilometr sgwâr, sy'n is nag 17 o'r 22 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru. Yr aneddiadau mwyaf poblog yn Sir Gaerfyrddin, mewn trefn ddisgynnol, yw Tyisha, Elli, Lliedi, Bigyn a Rhydaman.

Cyfradd ddiweithdra Sir Gaerfyrddin - sy'n cynnwys unigolion sy'n ddi-waith ac wrthi'n chwilio am waith - oedd 4.4% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2023, y gyfradd uchaf ers 2020 ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.9%.

Fodd bynnag, dros gyfnod y duedd (Rhagfyr 2014 - Rhagfyr 2023), gwelir gostyngiad sylweddol o 89.3% yn nifer y bobl yn Sir Gaerfyrddin y gellir eu galw'n 'ddi-waith ers cyfnod hir' (rhai sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith am gyfnod hwy na 6 mis) (790 o bobl yn llai yn 2023, o gymharu â 2014).

Mae ffigurau o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod y newid yn y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin cyd-fynd â'r newid ym mhoblogaeth Cymru. Gwelwyd y twf mwyaf yn y grwpiau oedran hŷn. Ers 2011, gwelwyd cynnydd o 21% i'r grŵp oedran 65-74, ac yn ail agos i hynny, cynnydd o 20.5% yn y grŵp oedran 75 i 84 oed, wedyn cynnydd o 8.4% yn y grŵp oedran dros 85 oed.

Roedd y gostyngiad mwyaf yng ngrwpiau oedran y boblogaeth yn y grwpiau oedran iau: -16.8% ymhlith rhai 20-24 oed a -13.2% ymhlith rhai 16-19 oed.

**Pe bai modd inni grebachu poblogaeth Sir Gaerfyrddin i bentref ac ynddo oddeutu 100 o bobl, gan gadw'r holl gymarebau dynol presennol yr un peth, byddai'r pentref yn cynnwys:**

- 49 ddynion a 51 o fenywod (Cyfrifiad 2021)
- 17 o blant o dan 16 oed (Cyfrifiad 2021)
- 59 o bobl oed gwaith (Cyfrifiad 2021)
- 24 o bobl oed pensiwn (Cyfrifiad 2021)
- 40 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021)
- 97 o bobl o gefndir gwyn a 3 o gefndir heb fod yn wyn (Cyfrifiad 2021)
- Byddai 2 yn Lesbiaidd, yn Hoyw neu'n Ddeurywiol neu'n perthyn i'r categorïau eraill o gyfeiriadedd rhywiol (Cyfrifiad 2021)
- 11 o bobl â salwch cyfyngus hirdymor (Cyfrifiad 2021)
- Byddai 11 o bobl yn darparu gofal di-dâl (Cyfrifiad 2021)
- 5 o'r boblogaeth oed gwaith ag anabledd (Ystadegau Mai 2023 ar gyfer taliadau Lwfans Byw i'r Anabl)

- Byddai 19 o bobl (oed 16+) yn derbyn budd-daliadau (Adran Gwaith a Phensiynau – Awst 2023)
- 48 o bobl sy'n Gristnogion, 2 berson o grefydd arall a 44 heb unrhyw grefydd (byddai’n well gan 6 beidio â datgan eu crefydd) (Cyfrifiad 2021)
- Byddai 8 aelwyd yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn a 10 aelwyd yn ennill dros £80,000 y flwyddyn (CACI Paycheck 2023)
- 11 o aelwydydd un rhiant (Cyfrifiad 2021)

Wrth ystyried ein Sir o safbwynt mor gywasgedig, daw'r angen am agwedd dderbyngar, parch, dealltwriaeth a gwybodaeth am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn amlwg.

*Mae’r budd-daliadau hyn yn cynnwys Credyd Cynhwysol (UC), Budd-dal Tai (HB), Credyd Pensiwn (PC), Cymhorthdal Incwm (IS) a Lwfans Ceisio Gwaith (JSA).

# 6) Polisïau ac Arweiniad

### Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-27

Mae’r Strategaeth Gorfforaethol yn pennu'r cyfeiriad i'r awdurdod lleol dros y pum mlynedd nesaf, gan ymgorffori ein hamcanion gwella a llesiant a ddiffinnir mewn deddfwriaeth.

Mae ein hamcanion llesiant yn canolbwyntio ar:

1. Alluogi ein plant a’n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posib mewn bywyd (Dechrau’n Dda)
2. Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio’n dda (Byw a Heneiddio’n Dda)
3. Galluogi ein cymunedau a’n hamgylchedd i fod yn iach, yn diogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)
4. Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)

Rydym wedi pennu'r rhain gyda golwg ar ymdrin â'r prif heriau a'r meysydd i'w datblygu o flaen Sir Gaerfyrddin, ond gyda golwg fwy hirdymor i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trigolion a chymunedau Sir Gaerfyrddin.

Bydd amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu darparu i gyflawni'r nodau hyn, po un wedi'i ddarparu'n unol â Gwerthoedd Craidd y Cyngor, sy'n tanategu ac yn llywio'r modd rydym yn gweithio, y modd rydym yn gwella, a'r modd rydym yn gwneud penderfyniadau yn ein cymuned.

### Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-28

Mae'r Asesiad Llesiant Lleol yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’n seiliedig ar ddata, tystiolaeth ac adborth gan ein trigolion a rhanddeiliaid ar yr hyn sy’n bwysig i’n cymunedau o ran Llesiant.

Mae’r Cynllun Llesiant Lleol yn esbonio sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein sir am y pum mlynedd nesaf. Mae’n adeiladu ar Asesiad Llesiant manwl sy’n coladu data a thystiolaeth a hefyd gweithgarwch cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid ar draws ein sir.

Mae'r Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 yn cynnwys yr Amcanion Llesiant a ganlyn:

- Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
- Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur
- Mynd i’r afael â thlodi a’i effeithiau
- Helpu i greu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol.

## Strategaeth Gweithlu Cyngor Sir Caerfyrddin 2024-29

Mae ein Strategaeth Gweithlu yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor ac yn diffinio sut y byddwn yn meithrin y gallu, y sgiliau a'r diwylliant sydd eu hangen arnom ar gyfer ein gweithlu. Mae'r Strategaeth nid yn unig yn bodloni ein hanghenion presennol, ond hefyd anghenion ein gweithlu yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys strategaethau i ddatblygu gweithwyr, cynllunio ar gyfer olyniaeth, a recriwtio sy'n ystyried cynaliadwyedd hirdymor a'r effaith ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Strategaeth yn disgrifio pum amcan allweddol i'w gweithredu, y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y pum mlynedd nesaf, i gefnogi a datblygu ein gweithlu, cryfhau ein galluoedd fel sefydliad a thrawsnewid ein dull o wneud pethau.

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiadau effaith yn arf ymarferol pwysig i'n helpu i ddeall a lliniaru effaith bosibl ein penderfyniadau ar ein trigolion, ein cwsmeriaid a'n gwasanaethau. Maent yn ein helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Yn bennaf oll, maent yn rhoi cyfle inni ddangos tystiolaeth o'n proses feddwl ac i herio rhagdybiaethau wrth ddatblygu cynigion newydd. Gall asesiadau effaith felly fod o gymorth i sicrhau bod cynigion newydd yn effeithiol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r data gorau posibl.

Templed digidol yw'r asesiad effaith integredig sydd i'w gwblhau a'i adolygu'n rhan o'r broses o ddatblygu cynigion a gyflwynir i benderfynu yn eu cylch gerbron Cabinet neu Gyngor Llawn y Cyngor.

Mae'n ofynnol yn statudol i'r gwblhau asesiadau effaith o dan nifer o ofynion deddfwriaethol. Mae'r gofynion hyn yn ymrwymiadau cyfreithiol i'r Cyngor, ac os na chyflawnir y dyletswyddau hyn gallai'r Cyngor fod yn agored i her gyfreithiol am beidio dilyn y drefn briodol.

Mae ein hasesiad integredig yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol 2021
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Mae Asesiadau Effaith Integredig yn ofynnol ar gyfer yr holl faterion strategol a gyflwynir i'r Cyngor i benderfynu yn eu cylch. Dylai'r broses o gynnal Asesiad Effaith ddechrau cyn gynted ag y dechreuir datblygu cynnig. Dylid mireinio a diweddaru'r Asesiad drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig wrth gasglu tystiolaeth a gwybodaeth bellach, a dylai gefnogi gwaith i graffu ar y cynnig yn y cam penderfynu.

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyntaf. Mae'r cynllun yn adeiladu ar fentrau blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb hiliol ac yn adeiladu ar werthoedd gwrth-hiliaeth, gan alw arnom i beidio goddef unrhyw anghydraddoldeb hiliol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi gweledigaeth ar gyfer cenedl wrth-hiliol lle mae pawb yn cael ei werthfawrogi am bwy ydyn nhw, ac am y cyfraniad y maen nhw'n ei wneud, ac yn ymrwymo i greu cenedl wrth-hiliol erbyn 2030.

O ran ei chyfrifoldeb i arwain y sefydliadau sector cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat y mae'n eu hariannu, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi 5 o gamau gweithredu craidd a ddisgwylir gennym, ac y bydd yn ein dwyn i gyfrif yn eu cylch, drwy'r Grŵp Atebolrwydd:

1. Dangos ymrwymiad cadarn i arwain o’r blaen o ran gwerthoedd gwrth-hiliol, ymddygiadau, cynrychiolaeth ar bob lefel o’ch sefydliad a mesurau atebolrwydd.
2. Cymryd rhan ym mhob proses gwneud penderfyniadau a grŵp uwch arweinwyr mewn ffordd sy’n ei gwneud yn bosibl i glywed profiadau bywyd pobl ethnig leiafrifol a gweithredu arnynt.
3. Bodloni gofynion sylfaenol Deddf Cydraddoldeb 2010 o leiaf, a chyhoeddi eich canlyniadau mewn fforwm/llwyfan agored a hygyrch.
4. Sicrhau safonau gofynnol a darpariaeth gwasanaethau diwylliannol sensitif a phriodol, gan gynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli.
5. Sicrhau polisïau a phrosesau cwyno cadarn ar gyfer achosion o aflonyddu hiliol sydd wedi’u dilysu er boddhad grwpiau ethnig lleiafrifol.

Er mwyn mabwysiadu ymagwedd wrth-hiliol mae angen inni edrych ar y modd y mae hiliaeth wedi'i hymgorffori yn ein polisïau, ein rheolau a'n rheoliadau ffurfiol ac anffurfiol, a'n dulliau cyffredinol o weithio.

Er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cynhaliwyd llawer o drafodaethau a sgyrsiau â phobl o leiafrifoedd ethnig ac eraill. Casgliad y gwaith hwnnw oedd fod angen mabwysiadu ymagwedd wrth-hiliol.

Mae’r cynllun gweithredu yn amlinellu camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a’r sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys: Arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus, Addysg a’r Gymraeg, Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Leol, Cyflogadwyedd a Sgiliau (gan gynnwys Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth), Cymorth i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, Trosedd a Chyfiawnder, a Gofal Plant a Chwarae.

Byddwn yn gweithredu rhannau perthnasol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn rhan o'r gwaith ar ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

### Cynllun Gweithredu LHDTC+

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu LHDTC+ yn 2023, gyda'r nod o sefydlu Cymru fel y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop, a helpu holl bobl LHDTC+ Cymru i fyw bywyd mor llawn ag sy'n bosibl: i fod yn iach, yn hapus, ac i deimlo'n ddiogel.

Mae'r cynllun yn fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ar draws y llywodraeth a chyda phartneriaid, gan sefydlu gweledigaeth drosfwaol i wella bywydau a chanlyniadau pobl LHDTC+. Mae’n cynnwys ystod eang o gamau gweithredu polisi-benodol sy’n ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, a hybu cydlyniant cymunedol. Mae'n nodi'r camau pendant y mae angen eu cymryd i gryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+, i herio gwahaniaethu, ac i greu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu'n agored ac yn rhydd fel nhw'u hunain. Mae’r cynllun gweithredu yn amlinellu camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a’r sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys: cydnabod pobl draws ac anneuaidd; diogelwch; cartref a chymunedau; iechyd a gofal cymdeithasol; addysg a dysgu gydol oes; y gweithle; a chefnogi'r ymateb i COVID-19.

Byddwn yn rhoi rhannau perthnasol y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar waith yn rhan o'n gwaith ar ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

### Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi’i nodi yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau, roi ystyriaeth ddigonol i ddymunoldeb arfer y swyddogaethau hynny mewn modd sy'n anelu i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd yn cyfeirio at agweddau ar fywyd 'cymdeithasol' (eich cyfleoedd bywyd a ble rydych chi'n byw) ac 'economaidd' (faint o arian sydd gennych ar gyfer eitemau sy'n angenrheidiol ac yn ddianghenraid).

Mae’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol felly'n ceisio gwella prosesau gwneud penderfyniadau strategol cyrff cyhoeddus penodedig er mwyn rhoi gwell cymorth i’r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol o ran incwm a/neu statws. Mae’n gosod ymdrin ag anghydraddoldeb wrth graidd y broses benderfynu, ac yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud.

Gall anghydraddoldeb luosogi ffactorau economaidd-gymdeithasol negyddol ymhellach. Bydd y Cynllun Strategol Cydraddoldeb yn nodi amcanion a chamau gweithredu a fydd yn helpu i wella canlyniadau economaidd-gymdeithasol.

### Deddf y Lluoedd Arfog 2021

Mae Dyletswydd Statudol Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi’i nodi yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021, cymal 8 (cyfamod y lluoedd arfog) sy’n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus i roi sylw dyladwy i egwyddorion cyfamod y lluoedd arfog yn swyddogaethau perthnasol tai, addysg a gofal iechyd. Mae a wnelo'r Ddyletswydd â gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, ac mae'n golygu y dylai'r cyrff cyhoeddus penodedig feddwl am egwyddorion cyfamod y lluoedd arfog, a rhoi pwys digonol ar yr egwyddorion hynny, wrth ystyried yr holl

ffactorau sy'n berthnasol i'r modd y maen nhw'n cyflawni swyddogaethau perthnasol.  Dyma'r egwyddorion:

(a) cydnabod rhwymedigaethau unigryw a'r aberthau a wneir gan y lluoedd arfog,

(b) yr egwyddor ei bod hi'n ddymunol dileu anfanteision a brofir gan bobl y lluoedd arfog, naill ai yn sgil aelodaeth, neu gyn-aelodaeth o'r lluoedd arfog, ac

(c) yr egwyddor y gellid cyfiawnhau darpariaeth arbennig i bobl y lluoedd arfog yn sgil effeithiau aelodaeth, neu gyn-aelodaeth, o'r lluoedd arfog ar y bobl hynny.

## 7) Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin

Fel corff cyhoeddus mae angen inni sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i'n gwasanaethau, a bod ein gwasanaethau'n trin pawb yn deg. Mae angen i egwyddorion sylfaenol hawliau dynol fod yn greiddiol i'r broses o ddarparu gwasanaethau hefyd. Mae'n ofynnol inni ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy drwy welliannau penodol mewn polisïau ac yn y modd y darperir ein gwasanaethau ac y cyflawnir ein swyddogaethau.

Ac ystyried y dystiolaeth uchod, a chan gydbwyso'r dystiolaeth honno ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall, rydym wedi gosod yr amcanion cydraddoldeb canlynol i Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2024-28:

1. **Bod yn gyflogwr o ddewis.**
2. **Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda.**
3. **Ymwreiddio Cydlyniant Cymunedol yn ein sefydliad a'n cymuned.**
4. **Gwarchod a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol.**

Mae'r amcanion cydraddoldeb uchod yn seiliedig ar yr anghenion a'r materion a godwyd wrth ymgysylltu ac ymgynghori ar *'A yw Cymru'n Decach 2023?'* Rydym hefyd wedi ystyried yr Amcanion Strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r modd y gallwn gyfrannu at yr amcanion hynny.

Nid ydym wedi mynd ati i osod amcan ar gyfer pob nodwedd, ond yn hytrach wedi gosod amcanion yn seiliedig ar yr anghenion a'r materion y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu. Lle bo nodwedd warchodedig o dan anfantais neilltuol, rydym wedi cofnodi hyn yn yr wybodaeth gefndirol ar gyfer pob amcan. Rydym hefyd wedi cynnwys camau gweithredu penodol yn ein cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag anfanteision anghymesur neu benodol a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchodedig unigol.

## 8) Bod yn Gyflogwr o Ddewis

**Gweithio i greu gweithle lle caiff pawb eu trin yn gyfartal, gydag urddas, a chyda mynediad teg at adnoddau a chyfleoedd.**

Data perthnasol:

- Dengys adborth o **Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023** y canfyddir bod nodwedd warchodedig rhywun yn cael effaith ddifrifol ar ei brofiadau o waith. Y tri grŵp uchaf a nodai yn yr arolwg eu bod yn cael profiadau gwaeth yn y gwaith na'r boblogaeth gyffredinol oedd pobl o gefndir ethnig, pobl anabl a phobl hŷn. Amlygodd ein cymunedau hefyd fod croestoriadedd yn dwysau'r effaith hon.
- Ledled Cymru, mae pobl anabl yn gyson yn llawer llai tebygol o gael eu cyflogi (39.1%) na phobl nad ydynt yn anabl (75.3%).
- Grwpiau lleiafrifol gwyn sydd â'r gyfradd uchaf o gyflogaeth yng Nghymru, a grwpiau gwyn Prydeinig sydd â'r gyfradd isaf, ond mae grwpiau lleiafrifol ethnig yn fwy tebygol o fod mewn swydd ansefydlog.
- Mae grwpiau lleiafrifol ethnig yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi gwahaniaethu a bwlio yn y gwaith, gyda phroblemau wedi'u nodi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Ledled Cymru, dywedodd 34% o staff LHDTC+ eu bod yn cuddio neu'n celu eu hunaniaeth yn y gwaith am eu bod yn ofni gwahaniaeth. Mae hyn yn cynyddu i 45% ymhlith pobl drawsryweddol ac anneuaidd.
- Y bwlch cyflog anabledd ar gyfer Cymru yn 2021 oedd 11.6%, gyda gweithwyr anabl yn ennill llai na gweithwyr nad ydynt yn anabl.
- Yn 2019, y bwlch cyflog ethnigrwydd yng Nghymru oedd 1.4%. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn ennill 1.4% yn llai fesul awr ar gyfartaledd na gweithwyr Gwyn Prydeinig.
- Cyngor Sir Caerfyrddin yw un o gyflogwyr mwyaf yr ardal ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi 8,665[1] pobl (6,566 CALl) mewn 5,022 o swyddi, gydag ond 100 o weithwyr yn cael eu cyflogi drwy asiantaeth gyflogaeth ar unrhyw adeg benodol. Mae 45% o'n staff wedi rhoi dros 10 mlynedd o wasanaeth ac mae 27% yn debygol o ymddeol yn ystod y deng mlynedd nesaf.
- Mae 11.77% o'n pobl wedi datgan bod ganddynt anabledd.
- Ein cyflog canolrifol yw £25,049. [2]

---

[1] Yn Rhagfyr 2022
[2] Datganiad Polisi Tâl 2023/24

| Bod yn Gyflogwr o Ddewis | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithredu** | **Ffynhonnell / Cynllun(iau) Cysylltiedig** | **Cyfrifoldeb** | Hil | Anabledd | Rhyw | Ailbennu Rhywedd | Cyfeiriadedd Rhywiol | Oedran | Crefydd/Cred | Priodas / Partneriaeth Sifil | Beichiogrwydd / Mamolaeth | **Cwblhau erbyn** |
| Datblygu opsiynau ac amserlen i adolygu ein Model Tâl i'w gytuno gan y Panel Cynghori ar Bolisi Tâl.<br><br>Gweithredu Model Tâl newydd | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Ebrill 2024<br><br>Mawrth 2026 |
| Gweithio gyda chydweithwyr o is-adrannau eraill ee. Caffael, i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Cyhoeddus Partner ac Undebau Llafur i ddatblygu agenda'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhellach.<br>(gan ystyried fforddiadwyedd) | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Ebrill 2025 |
| Hybu'r defnydd o brofiad gwaith, secondiadau, prentisiaethau, cysgodi, hyfforddi, mentora a chynlluniau graddedigion. | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2026 |
| Gweithio gyda grwpiau perthnasol i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr ar draws pob cymuned gan gynnwys y gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029<br><br>Cynllun Gweithredu | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru Wrth-hiliol | | | | | | | | | | | |
| Edrych ar ffyrdd i wella ansawdd data cydraddoldeb ein gweithlu a gwella ansawdd yr wybodaeth a gesglir yn barhaus. | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025<br><br>Parhaus |
| Sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o sgiliau gorfodol, statudol a chraidd (gan gynnwys Cydraddoldeb a'r Gymraeg) a'u bod wedi dysgu'r sgiliau hynny. | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |
| Darparu ystod o gyfleoedd datblygu i staff newydd a phresennol wella'u sgiliau Cymraeg. | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |
| Cynnal arolwg blynyddol i ymgysylltu â'r gweithwyr | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Medi 2024 |
| Sefydlu fforwm staff | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Ebrill 2024 |
| Darparu data perthnasol a chywir yn ymwneud â phobl i'r sefydliad drwy ddatblygu dangosfwrdd data pobl drwy ddatblygu fframwaith Data'r Gweithlu | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |
| Gweithio i fod yn gystadleuol wrth recriwtio a gweithio tuag at wella lefelau recriwtio yn barhaus ar draws y sefydliad. Ceisio deall y camau sydd eu hangen er mwyn dod yn gyflogwr o ddewis yng Ngorllewin Cymru | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu hyfforddiant manwl i'r Aelodau ar feysydd sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch, i'w cynnwys yn rhan o'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. | Strategaeth y Gweithlu 2024-2029 | Rheoli Pobl | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |

## 9) Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio’n dda

**Data cefndirol:**

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau andwyol difrifol, gan effeithio ar bob agwedd ar lesiant. Mae dros draean o’n haelwydydd yn parhau i fyw mewn tlodi (35.6%), lefel sydd wedi cynyddu 0.9% dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i tua 29,500 o aelwydydd, sy’n awgrymu bod bron i 600 o aelwydydd ychwanegol wedi llithro o dan y trothwy incwm dros y deng mlynedd diwethaf.
- Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae 11% o boblogaeth y sir dros 75 oed (sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 9.8%). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r GIG a'r Awdurdod Lleol gynllunio am y cynnydd disgwyliedig yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Yn 2021, roedd y penteulu ym 41% o’r holl aelwydydd a oedd mewn tlodi tanwydd yn 65 oed neu'n hŷn.
- Rhagwelir y bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu'n sylweddol yn y 15 mlynedd nesaf.
- Roedd 2.8% o drigolion 16-64 oed yn hawlio budd-daliadau ym mis Rhagfyr 2023, sydd bron yn ôl i lefelau cyn y pandemig.
- Roedd 3,070 o drigolion yn Sir Gaerfyrddin yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ym mis Rhagfyr 2023.
- Yn ei Gipolwg ar Dlodi 2023, canfu Sefydliad Bevan fod Pobl ar Gredyd Cynhwysol bum gwaith yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o ddweud eu bod yn ei chael hi'n anodd fforddio hanfodion ar adegau, yn aml, neu drwy'r amser.
- Pobl anabl y mae eu cyflwr yn cyfyngu llawer arnynt – mae dros hanner (52 y cant) wedi mynd heb wres yn eu cartref dros y tri mis diwethaf.
- Rhentwyr cymdeithasol – mae bron i hanner (46 y cant) ohonynt yn dweud eu bod wedi gorfod gwario llai ar fwyd iddyn nhw'u hunain neu fethu prydau bwyd yn y tri mis hyd at Ionawr 2023. Aelwydydd gyda phlant – tua dwywaith yn fwy tebygol o fod mewn dyled oherwydd yr argyfwng costau byw nag aelwydydd heb blant.
- Oedolion dan 65 oed – ddwywaith yn fwy tebygol nag aelwydydd dros 65 oed o adrodd bod eu haelwyd yn cael trafferth fforddio’r hanfodion sylfaenol ar adegau, yn aml, neu drwy'r amser.
- Gofalwyr di-dâl – yn llawer mwy tebygol o fod wedi benthyca arian rhwng mis Hydref a mis Ionawr na phobl nad ydynt yn ofalwyr.

- Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth Cymru, rhwng 2020 a 2022, roedd 38% o aelwydydd un rhiant mewn tlodi. Dengys data o Gyfrifiad 2021 mai menywod yw'r penteulu yn y rhan fwyaf (89.1%) o aelwydydd un rhiant.

## Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda

| Gweithredu | Ffynhonnell / Cynllun(iau) Cysylltiedig | Cyfrifoldeb | Hil | Anabledd | Rhyw | Ailbennu Rhywedd | Cyfeiriadedd Rhywiol | Oedran | Crefydd/Cred | Priodas / Partneriaeth Sifil | Beichiogrwydd / Mamolaeth | Cwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r Agenda Trechu Tlodi a'r ymgyrch Costau Byw, byddwn yn hyrwyddo'r holl gyllid a chefnogaeth newydd sydd ar gael, gan ganolbwyntio ar y problemau a wynebir gan ein cymunedau gwarchodedig lle bo modd. | Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi | Gweithgor Swyddogion Trechu Tlodi | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Parhaus |
| Byddwn yn sicrhau bod gennym ymagwedd ddi-dor drwy bob oed at gymorth cymunedol, gan sicrhau mynediad cyfartal at addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a chynhwysiant cymunedol.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys modelau darparu gwasanaeth newydd i ymateb i Covid-19 a'r cyfleoedd yn sgil hyn i uwchgyfeirio | Strategaeth Gorfforaethol 2023-27 | Adran Cymunedau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ein Cynllun Trawsnewid Anableddau Dysgu. | | | | | | | | | | | | |
| Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ysgogi ymgysylltu â chymunedau ac arfer da o ran recriwtio o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig.<br><br>Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â Chyd-gynhyrchu Cymru drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a Phrosiect Dewi. | Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-28<br><br>Strategaeth Gorfforaethol 2023-27 | Adran y Prif Weithredwr | ● | | | | | | | | | 2023-28 |
| Gweithio gyda grwpiau allanol perthnasol, i wella cynrychiolaeth a chyfeiriadau ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar wefan y Cyngor | Strategaeth Gorfforaethol 2023-27 | Adran y Prif Weithredwr | ● | | | | | | | | | 2022-27 |
| Dod yn aelod o Fframwaith Cymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, yn seiliedig ar fapio tystiolaeth leol.<br><br>Cymryd camau pellach i ddatblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth ac adborth gan ein trigolion. | Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio | Adran y Prif Weithredwr | | ● | | | | ● | | | | 2024-28 |

## 10) Ymwreiddio Cydlyniant Cymunedol yn ein sefydliad a'n cymuned

**Ymwreiddio Cydlyniant Cymunedol; ei brif-ffrydio drwy ein sefydliad a'r gymuned ehangach. Cefnogi dathlu amrywiaeth a chynhwysiant wrth adeiladu cymunedau cydnerth ledled Sir Gaerfyrddin.**

Data cefndirol:

- Mae cyfran yr oedolion yng Nghymru ym mhob grŵp oedran sy’n teimlo eu bod yn perthyn i’w hardal leol wedi cynyddu. Yn 2020/21, mae pobl 65-74 oed (89%) a 75 oed a throsodd (90%) yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol na phobl yn y grwpiau oedran iau.
- Mae data gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod cofnodion o droseddau casineb gan yr heddlu wedi cynyddu'n gyffredinol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Credir mai'r rheswm am hyn yw gwelliannau i'r broses o adrodd am y troseddau hyn, ac i'r arferion cofnodi ymhlith heddluoedd. Roedd troseddau casineb a gofnodwyd ar gyfer pob maes ar eu lefel uchaf yn 2021/22.
- Cynyddodd nifer y troseddau a waethygwyd gan hiliaeth neu grefydd a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru, o 1,704 yn 2027-18 i 2,934 yn 2021-22. Fodd bynnag, gostyngodd cyfran y troseddau a arweiniodd at gyhuddiad yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae pobl dduon neu bobl ethnig gymysg yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na grwpiau ethnig Gwyn, Asiaidd neu grwpiau ethnig eraill.
- Mae cyfran y bobl anabl a ddywedodd eu bod wedi profi cam-drin domestig yn ystod y 12 mis diwethaf tua thair gwaith yn fwy na’r hyn a adroddwyd gan bobl nad ydynt yn anabl.
- Cyfeiriadedd rhywiol oedd y ffactor ysgogol mwyaf ond un ar gyfer troseddau casineb a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru yn 2021-22, gan gynyddu o 19.1% (yn 2018-19) i 21.1%.
- Canfu dadansoddiad o Arolwg Cenedlaethol Cymru fod menywod yn llawer llai tebygol o deimlo’n ddiogel yn eu cymuned leol na dynion. Roedd menywod yn teimlo’n llai diogel yn 2021/22 nag yr oeddent yn 2016/17. Yn 2021/22, roedd 51% o fenywod yn teimlo’n ddiogel gartref ac yn cerdded neu’n teithio yn yr ardal leol (56% yn 2016/17) o gymharu ag 81% o ddynion (82% yn 2016/17).

## Ymwreiddio Cydlyniant Cymunedol yn ein sefydliad a'n cymuned

| Gweithredu | Ffynhonnell / Cynllun(iau) Cysylltiedig | Cyfrifoldeb | Hil | Anabledd | Rhyw | Ailbennu Rhywedd | Cyfeiriadedd Rhywiol | Oedran | Crefydd/Cred | Priodas / Partneriaeth Sifil | Beichiogrwydd / | Cwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif ffrydio cydlyniant cymunedol mewn cyrff cyhoeddus ac yn y gymuned ehangach drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gan gydblethu hyn â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru | Cynllun Gwaith y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol | Cymunedau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2026 |
| Cydgysylltu hyfforddiant perthnasol sy’n ymwneud â chydlyniant cymunedol, ar gyfer staff awdurdod lleol, staff cyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, swyddogion etholedig, neu eraill sydd â rhan allweddol i’w chwarae er mwyn meithrin cydlyniant cymunedol. | Cynllun Gwaith y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol | Cymunedau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2026 |
| Cyflwyno digwyddiadau, gweithgareddau a mentrau allgymorth ac ymgysylltu hygyrch a chynhwysol, sy'n meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau drwy leihau gwahanu a chynyddu empathi a dealltwriaeth. Dylai hyn gynnwys profiadau croestoriadol a rhwng gwahanol genedlaethau, gan gynnwys | Cynllun Gwaith y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol | Cymunedau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2026 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| unigolion a chymunedau mewn modd cyd-gynhyrchiol. | | | | | | | | | | | |
| Dileu rhwystrau i gyfranogiad, gan ystyried anghenion ieithyddol, diwylliannol a hygyrchedd cymunedau, yn ogystal â ffactorau eraill megis allgáu digidol. | Cynllun Gwaith y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol | Cymunedau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2026 |
| Monitro tensiynau cymunedol sy'n dod i'r amlwg yn barhaus a gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys yr heddlu ac aelodau o'r gymuned, fel rhan o'r ymateb i liniaru'r tensiynau hynny. | Cynllun Gwaith y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol | Cymunedau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2026 |

## 11) Gwarchod a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Gweithio i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u hymwreiddio ym mhob polisi a chynllun strategol ar draws ein Cyngor. Fel corff cyhoeddus mae angen inni sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal at ein gwasanaethau ac yn cael eu trin yn deg gan ein gwasanaethau. Mae angen i egwyddorion sylfaenol hawliau dynol fod yn greiddiol i'r broses o ddarparu gwasanaethau hefyd.**

Data perthnasol:

- Mae adborth o **Arolwg Cydraddoldeb Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023** yn cadarnhau bod profiadau pobl o ddylanwadu ar benderfyniadau yn amrywio yn ôl eu grŵp demograffig. Y tri grŵp uchaf yn yr arolwg oedd â phrofiadau gwaeth o ddylanwadu ar benderfyniadau yw'r rhai o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ifanc.
- Nid yw dros 75% o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y DU yn credu bod eu hawliau dynol yn cael eu gwarchod i'r un graddau â hawliau dynol pobl wyn.
- Bydd pobl anabl yng Nghymru yn gyson yn wynebu rhwystrau wrth geisio mwynhau safon byw debyg i bobl nad ydynt yn anabl, gyda 27.3% o bobl anabl yn byw mewn tlodi cymharol o gymharu ag 17.9% o bobl nad ydynt yn anabl.
- Yn ôl yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr SHRN yn 2019/20, roedd 61% o blant ysgol nad oeddent yn uniaethu â rhyw gwrywaidd na benywaidd yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio yn yr ychydig fisoedd diwethaf, o gymharu â 35% o ferched a 30% o fechgyn. Cynyddodd hyn rhyw fymryn ymhlith rhai nad ydynt yn uniaethu â rhyw gwrywaidd na benywaidd yng nghanlyniadau arolwg 2021/22 (62%), ond gostyngodd ymhlith bechgyn (28%) a merched (34%).
- Cynhaliodd Stonewall arolwg a ganfu fod 54% o ddisgyblion LHDT a ymatebodd yn dweud eu bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, a bod myfyrwyr traws yn fwy tebygol o gael eu bwlio yn yr ysgol.
- Gall pobl ifanc LGB wynebu risg uwch o ddigartrefedd (oherwydd chwalfa deuluol, bwlio a phroblemau iechyd meddwl, lefelau uwch o droseddau casineb a chamddefnydd o sylweddau)
- Nid yw 25% o bleidleiswyr Du ym Mhrydain wedi cofrestru i bleidleisio, o gymharu â chyfartaledd o 17% ar draws y boblogaeth
- Mae angen ffocws pellach ar ofynion digidol pobl anabl sydd wedi wynebu rhwystrau sylweddol wrth gael mynediad at wasanaethau ar-lein, yn ogystal ag unigrwydd ac ynysigrwydd (Grŵp Llywio Ynysigrwydd Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2020)

| Gwarchod a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol. | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithredu** | **Ffynhonnell / Cynllun(iau) Cysylltiedig** | **Cyfrifoldeb** | **Hil** | **Anabledd** | **Rhyw** | **Ailbennu Rhywedd** | **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Oedran** | **Crefydd/Cred** | **Priodas / Partneriaeth Sifil** | **Beichiogrwydd / Mamolaeth** | **Cwblhau erbyn** |
| Cefnogi ysgolion i roi'r canllawiau statudol diweddaraf ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar waith yn yr ysgolion (pan gânt eu cyhoeddi) | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | | | | | ● | | | | Adolygiad Mawrth 2025 |
| Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i roi canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig Cymru, sef 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb', ar waith gan roi cyngor a chymorth perthnasol | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | Adolygiad Mawrth 2025 |
| Cynorthwyo ysgolion i roi canllawiau trawsryweddol Llywodraeth Cymru ar waith yn yr ysgolion. | Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Addysg a Gwasanaethau Plant | | | | ● | | ● | | | | Adolygiad Gorffennaf 2024 |
| Dadansoddi data ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg i ddatblygu strategaethau lleol i gynyddu'r niferoedd a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n atal mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | | | | | ● | | | | Adolygiad Gorffennaf 2024 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig i ganfod sut y gellir crisialu llais a phrofiadau bywyd pobl yn y cymunedau hyn yn well fel rhan o’r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal yr Asesiad hwn i wella mynediad at leoliadau gofal plant a chwarae, yn ogystal â mynediad i gyfleoedd chwarae. | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | | | | | ● | | | | |
| Cefnogi ysgolion i weithredu canllawiau statudol diwygiedig Llywodraeth Cymru i ysgolion ynghylch llesiant, gan gydnabod anghenion penodol dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | | | | | ● | | | | Adolygiad Mehefin 2024 |
| Gweithredu'r Strategaeth Amrywiaeth ac Anghymesuredd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid fel y'i paratowyd gan Fwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin | Gweithredu'r Strategaeth Amrywiaeth ac Anghymesuredd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | 2023-25 |
| Paratoi a chyhoeddi Strategaeth Cynnwys | Strategaeth Cyfranogiad<br><br>Strategaeth Gorfforaethol 2023-27 | Adran y Prif Weithredwr | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Medi 2024 |
| Paratoi a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad Hawliau Plant a Phobl Ifanc | | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwilio i Rwydwaith Cyfranogiad Hawliau Plant a Phobl Ifanc a'i ddatblygu | | Addysg a Gwasanaethau Plant | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | Mawrth 2025 |
| Gweithredu'r gofyniad am Asesiad Effaith Integredig ar draws prosesau penderfynu'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth ag ystod o ddyletswyddau statudol gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, i fynd i'r afael â'r meysydd lle ceir y mwyaf o dlodi ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau | Strategaeth Gorfforaethol 2023-27<br><br>Adroddiad Archwilio Cymru ar 'Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal AEC' | Pob adran | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | 2024-28 |
| Cefnogi ymgyrchoedd i gryfhau hawliau pobl anabl a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y maent yn parhau i'w hwynebu | Strategaeth Gorfforaethol 2023-27<br><br>Cynllun Gweithredu Anabledd Llywodraeth Cymru (i'w gyhoeddi) | Adran y Prif Weithredwr | | ● | | | | ● | | | | 2024-28 |
| Gweithio i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gwybod o le i gael cyngor a chefnogaeth briodol am groestoriadedd | | Adran y Prif Weithredwr | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | 2024-28 |